**SEWR 03-00(min)**

**COFNODION PWYLLGOR RHANBARTHOL DE DDWYRAIN CYMRU**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 9 Mehefin 2000

**Amser:** 9.30am i 12.30pm

**Lleoliad:** Swyddfeydd y Cyngor, Cwm Clydach, y Rhondda

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones (Cadeirydd) | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jane Davidson | Pontypridd |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |

| | |
|---|---|
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| John Taylor | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| Sheila Davies | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| Alan Wells | Cyfarwyddwr yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol |
| Rhiannedd Pratley | Uwch Swyddog Datblygu, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol |
| Carey Lewis | Cydfferasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Jeff Evans | TUC Cymru |
| Clare Jenkins | TUC Cymru |

*Ysgrifennyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Rosemary Butler, Alun Cairns, David Davies, Ron Davies, William Graham, John Griffiths, Jane Hutt, Peter Law, Huw Lewis, Dai Lloyd, David Melding, Jonathan Morgan, Rhodri Morgan, Lynne Neagle a Phil Williams.

**Sylwadau Agoriadol**

2. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Rhondda gan ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol

Rhondda Cynon Taf am gael defnyddio'u cyfleusterau. Dywedodd fod addysg a hyfforddiant ar frig agenda'r Cynulliad, a bod y chwistrelliad o arian Ewrop dros yr ychydig flynyddoedd nesaf wedi sicrhau bod buddsoddi mewn gwybodaeth a sgiliau yn bwysicach nag erioed. Roedd angen arbennig i fynd i'r afael â sgiliau sylfaenol gwael ymysg oedolion, gan fod sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael gan tua 30 y cant o oedolion. Roedd hyn yn un o brif achosion diweithdra, cyflogau isel a mathau eraill o anfanteision economaidd a chymdeithasol.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth: SEWR-02-00 (min)**

3. Nodwyd bod Phil Williams yn cynrychioli rhanbarth etholaethol Dwyrain De Cymru yn hytrach na rhanbarth Gorllewin De Cymru. Ar wahân i hyn cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth.

**Addysg a hyfforddiant ôl-16: Papurau o Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol: SEWR-03-00 (p.1) a SEWR-03-00 (p.2)**

4. Eglurodd Sheila Davies am gyfansoddiad Fforwm Economaidd De Dddwyrain Cymru a chyflwynodd weledigaeth y Fforwm o ran gwireddu'r syniad o ddysgu gydol oes i bob dinesydd yn y rhanbarth. Dywedodd mai barn y Fforwm oedd y nodweddid llwyddiant tymor hir gan: weithlu cystadleuol sydd gyda'r gorau yn y byd; sgiliau a dyfeisgarwch entrepreneuraidd; unigolion yn derbyn cyfrifoldeb dros eu datblygiad personol eu hunain; yr agenda eithrio cymdeithasol yn cael ei fodloni o fewn cyd-destun gwaith; a dysgu gydol oes yn cael ei wireddu.

5. Dywedodd Sheila Davies fod yr economi ranbarthol o dan ddylanwad Caerdydd, gyda'r farchnad lafur wedi'i nodweddu gan lif llafur o'r gogledd i dde'r rhanbarth. Roedd hefyd amrywiadau nodedig yng nghyfansoddiad yr economïau lleol, gyda'r sector gweithgynhyrchu gryn dipyn yn llai arwyddocaol yng Nghaerdydd nag yng Nghymoedd De Cymru. Roedd yn hanfodol felly cynnal cydlyniad rhanbarthol o ran datblygu sgiliau.

6. Dywedodd John Taylor fod y Fforwm wedi cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau' ym mis Mehefin 1999. Adeiladwyd y cynllun gweithredu ar ddadansoddi'r farchnad lafur a'r economi ranbarthol yn deillio'n bennaf o broject Sgiliau Dyfodol Cymru. Nododd yr ystod o egwyddorion ar gyfer datblygu materion ynghyd â'r angen i gynnal cydlyniad rhanbarthol. Symbyliad y cynllun gweithredu oedd y dylai twf economaidd yn ysgogi cynllunio ar gyfer sgiliau.

7. Dywedodd John Taylor fod angen mynd i'r afael â sgiliau sylfaenol gwael ymysg oedolion gan fod rhyw 50 y cant o'r cyflenwad llafur yn 2002 eisoes wedi gadael addysg llawn amser. Roedd angen prif-ffrydio addysgu sgiliau sylfaenol i oedolion, a thargedu'r hyfforddiant ar bobl a chymunedau difreintiedig. Roedd dysgu anffurfiol yn aml yn gam cyntaf i bobl na fyddent fel arfer yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant pellach. Pwysleisiodd John Taylor fod

angen adeiladu'r gallu'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i ddarparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl y tu allan i'r mecanweithiau dysgu ffurfiol.

8. Byddai hefyd angen newid y diwylliant dysgu. Roedd John Taylor o'r farn y byddai menter y Brifysgol Diwydiant/Cyswlltdysgu yn darparu llawer o gyfleoedd newydd i ddysgu drwy ddefnyddio'r dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cydnabu'r Fforwm botensial technolegau newydd ar gyfer y broses ddysgu a sicrhaodd bod datblygu menter y Brifysgol Diwydiant/ Cyswlltdysgu yn flaenoriaeth. Enghraifft allweddol oedd hyn o ymagwedd ranbarthol strategol tuag at greu cymdeithas sy'n dysgu. Fodd bynnag roedd gofyn datrys mater yngln â sut y dylid datblygu'r fenter yn sgîl dirwyn y Cyngor Cyllido Addysg Bellach a'r Cynghorau Menter ac Hyfforddiant i ben.

9. Fel rhagarweiniad i gyflwyniad yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, pwysleisiodd Alan Wells fod problem fawr o ran llythrennedd a rhifedd gwael yng Nghymru. Roedd gan rhwng chwarter a thraean o oedolion sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael, a oedd gryn dipyn yn waeth na'r rheini mewn gwledydd eraill sydd wedi eu diwydiannu. Fodd bynnag, roedd dros hanner yr oedolion â sgiliau sylfaenol gwael wedi cyrraedd lefel lle byddai'n hawdd iddynt wella o dderbyn y cymorth cywir.

10. Roedd effaith sgiliau sylfaenol gwael yn un ddifrifol. Roedd y gost i ddiwydiant yn sylweddol, gyda cholledion yn deillio o wneud camgymeriadau, yr anhawster wrth roi a derbyn cyfarwyddiadau yn gywir ac amharodrwydd i ymgymryd ag arferion gwaith newydd. Roedd hyn yn cael effaith ar y gymuned hefyd, gyda phobl â sylfaenol gwael yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, ac ar y teulu, gydag oedolion yn methu â helpu eu plant yn yr ysgol. Yn ogystal, roedd yr effaith ar yr unigolyn yn un ddifrifol, ac roedd pobl â sgiliau sylfaenol gwael yn fwy tebygol o wneud gwaith lefel isel neu o fod yn ddi-waith.

11. Dywedodd Alan Wells fod yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi datblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r broblem sgiliau sylfaenol yng Nghymru. Roedd hyn yn ymagwedd 'o'r crud i'r bedd' gan y byddai'n cymryd gormod o amser i ddatrys y broblem yn yr ysgolion yn unig. Yn hytrach, argymhellodd y strategaeth amrywiaeth o fesurau gyda'r nod o atal methiant cynnar yn ogystal â helpu pobl ifanc ac oedolion i ddal i fyny. Roedd angen darparu mwy o gyfleoedd amrywiol i oedolion, yn y gweithle ac yn y gymuned, gyda rhaglenni anffurfiol yn hytrach na rhai ffurfiol yn llawer mwy tebygol o lwyddo. Er na fyddai'n hawdd, roedd y strategaeth yn cynnig ffordd o wella sgiliau sylfaenol yng Nghymru.

12. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd cryn bryder am faint y broblem sgiliau sylfaenol gwael ymhlith oedolion yng Nghymru, yn enwedig o ystyried y cysylltiadau â thlodi a difreinedd cymdeithasol. Roedd pryder hefyd bod mwy na thraean y plant 11 oed yn dechrau yn yr ysgol uwchradd gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd a oedd yn annigonol ar gyfer y cwricwlwm uwchradd.

Awgrymwyd y byddai'r rhaglen Cychwyn Cadarn yn arwain at welliannau yn y maes hwn.

- Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn bwysig ystyried sgiliau mewn cyd-destun rhanbarthol a chynnal cydlyniad rhanbarthol ar gyfer datblygu sgiliau. Roedd hyn yn adlewyrchu natur y farchnad lafur yn Ne Ddwyrain Cymru, a nodweddwyd gan bobl yn cymudo ar raddfa eang o'r Cymoedd i weithio yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Roedd pryder fod rôl arfaethedig swyddfeydd rhanbarthol Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chonsortia Cymunedol ar gyfer Addysg a hyfforddiant yn aneglur.
- Croesawodd yr aelodau y fenter yr ymgymerwyd â hi gan Fforwm Economaidd De ddwyrain Cymru gyda'u 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau', sy'n cydnabod y newidiadau dramatig o ran natur gwaith, gyda sgiliau llaw yn diflannu o swyddi ac yn cael eu disodli gan sgiliau ymenyddol. Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen newid o bersbectif cyflenwi i un a arweinir gan alw. Roedd Alan Wells o'r farn y byddai'n fwy priodol ystyried angen, gan nad oedd gan bobl heb sgiliau llythrennedd da ddisgwyliadau uchel iawn. Roedd angen canfod ffyrdd o symbylu'r rhai â sgiliau sylfaenol gwael i geisio'r hyfforddiant angenrheidiol.
- Nodwyd mai prin iawn oedd y cyfleoedd hyfforddi yn y gwaith i weithwyr heb sgiliau da. Roedd angen cryf am hyfforddiant o ansawdd uchel wedi'i leoli yn y gweithle, ond roedd yn anodd i'r sector addysg bellach ymateb i'r angen hwn.
- Roedd yr aelodau o'r farn bod angen darparwyr hyfforddiant i ddatblygu hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol a oedd yn llawn dychymyg, o ansawdd uchel ac wedi'i leoli yn y gymuned, ac i sicrhau bod mecanweithiau ariannu'r sector addysg bellach yn hybu'r ymagwedd hon yn hytrach na'i llesteirio.
- Awgrymwyd y byddai'n briodol o bosibl cynnwys ysgolion a cholegau yn un o drafodaethau pellach y Pwyllgor yngln ag addysg a hyfforddiant ôl-16.
- Roedd hefyd yn hanfodol adeiladu gallu'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i ddarparu cyfleoedd dysgu anffurfiol mewn cymunedau lleol fel cam cyntaf i'r rheini na fyddent fel arfer yn ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant pellach.
- Awgrymwyd y gallai'r dechnoleg newydd ddarparu modd o oresgyn y stigma sy'n gysylltiedig â chyrsiau hyfforddi mewn llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Er enghraifft, efallai y byddai modd cysylltu sgiliau TG â llythrennedd a rhifedd, neu ddefnyddio cyfrifiaduron fel arf i helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu.
- Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn bwysig gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgu sgiliau sylfaenol, gan gynnwys yr angen i ledaenu arfer da mewn addysgu llythrennedd a rhifedd. Nodwyd bod yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi cynnig y dylid sefydlu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor newydd i athrawon sgiliau sylfaenol.
- Cefnogwyd cynnig yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol y dylid cael Gwarant Llythrennedd Cenedlaethol a Gwarant Rhifedd Cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru. Nodwyd mai'r cynnig oedd y byddai pawb yn sefyll y profion hyn i brofi fod rhywun yn llythrennog ac yn rhifog. Roedd pobl o'r farn y gallai'r Gwarantau hyn helpu i sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ran sgiliau sylfaenol.
- Croesawodd yr aelodau'n frwd y ffaith fod data ardaloedd lleol ar gael ar sgiliau sylfaenol oedolion, ac y gellid eu defnyddio i nodi anghenion lleol. Nodwyd fod y data ar gael ar lefel wardiau yn ogystal ag yn ôl yr etholaethau seneddol. Roedd dadansoddiad

yn ôl grwpiau oed hefyd ar gael. Awgrymwyd y byddai dadansoddiad yn ôl rhyw hefyd yn ddefnyddiol.

- Tynnwyd sylw at y ffaith fod angen dehongli data ardaloedd lleol yn ofalus. Un enghraifft o hyn oedd Canol Caerdydd, lle roedd y data ar sgiliau sylfaenol ymysg oedolion wedi'u llurgunio gan boblogaeth fawr o fyfyrwyr a oedd yn llythrennog ac yn rhifog iawn.
- Nodwyd mai dim ond ar gyfer y blynyddoedd diwethaf yr oedd data ar oedolion sy'n meddu ar broblemau llythrennedd a rhifedd ar gael, ac o'r herwydd nad oedd yn bosibl gwneud cymariaethau hir dymor. Roedd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol bellach yn cynnal arolygon rheolaidd a fyddai'n darparu data cymharol yn y dyfodol.
- Mynegwyd pryder bod y targedau cenedlaethol presennol ar gyfer llythrennedd a rhifedd gweithredol ymysg oedolion yn 2002 yn or-uchelgeisiol ac y dylid rhoi'r gorau iddynt a defnyddio targedau mwy ystyrlon yn eu lle.
- Awgrymwyd y dylid gwneud mwy o ymdrechion i annog mewnfuddsoddi gan gwmnïau uwch dechnoleg yn y Cymoedd, yn ogystal ag annog busnesau cynhenid i wella sgiliau eu gweithwyr. Nodwyd bod prinder o dir ac anheddau addas ar gyfer mewnfuddsoddwyr mewn rhai rhannau o'r Cymoedd.
- Roedd yr aelodau o'r farn bod diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o anghenion addysgol plant teithwyr.

13. Diolchodd y Cadeirydd i Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am eu hadroddiadau ysgrifenedig a'u cyflwyniadau.

**Addysg a hyfforddiant ôl-16: Papurau o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a Chyngor Undebau Llafur (TUC) Cymru: SEWR-03-00 (p.3) a SEWR-03-00 (p.4)**

14. Wrth gyflwyno papur Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, pwysleisiodd Carey Lewis arwyddocâd busnesau bach yn yr economi ranbarthol. Rhoddodd bwyslais ar yr angen i gynnal y broses weithgynhyrchu a'r sgiliau oedd eu hangen ar gyfer gweithgynhyrchu, gan awgrymu bod angen ailgydio yn yr ethig hyfforddi drwy weithgynhyrchu a ddilynir o hyd gan gwmnïau yn yr Almaen.

15. Roedd Carey Lewis o blaid ailgyflwyno prentisiaethau traddodiadol. Roedd o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ariannu nid yn unig y costau hyfforddi ond hefyd y gost i'r busnes o gynnal y prentis, gan gynnwys y costau gweinyddol cysylltiedig. Yng Nghymru roedd prinder nodedig o ymgeiswyr ar gyfer prentisiaethau, ac ar y llaw arall, yn Iwerddon roedd mwy am fwrw prentisiaeth nag oedd o leoliadau i'w hyfforddi. Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn argymell sefydlu un sefydliad cenedlaethol, yn seiliedig ar y FÁS yn Iwerddon, a fyddai'n trefnu bod prentis yn cael ei ryddhau ar gyfer hyfforddiant o'r gweithle a'i fod yn derbyn lwfans hyfforddi. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y byddai disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn y dyfodol unwaith eto'n cystadlu i fwrw prentisiaeth.

16. Nododd Jeff Evans o TUC Cymru ymagwedd gyffredinol y TUC tuag at hyfforddi oedolion,

sef sicrhau bod dysgu yn rhan allweddol o waith. Roedd gwell sgiliau yn rhoi mwy o foddhad a gwell sgiliau i weithwyr, yn ogystal â'u galluogi i ddelio â newid. Roedd y TUC mewn sefyllfa unigryw i lywio'r agenda hyfforddi, ac roedd yn cydnabod ei rwymedigaeth i ymateb i'r her. Bellach roedd rhywfaint o gydlyniad rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, darparwyr addysg a hyfforddiant, y sector gwirfoddol, cyflogwyr a'r gweithwyr, a oedd oll yn gweithio tuag at agenda gyffredin. Roedd chwyldro tawel ar y gweill, a oedd yn sicrhau bod modd gwireddu'r nod o gymdeithas sy'n dysgu.

17. Dywedodd Clare Jenkins o TUC Cymru fod effaith sgiliau sylfaenol gwael yn un sylweddol. Roedd y swyddi nad oedd angen sgiliau sylfaenol ar eu cyfer yn prysur ddiflannu, ac roedd oedolion â sgiliau sylfaenol gwael yn aml yn ddi-waith am gyfnodau hir. Prin oedd y cyfleoedd a ddarparwyd i'r rheini mewn swyddi i gael hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol, er y cafwyd rhai enghreifftiau o arfer da. Yn ogystal, trefnwyd y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol ar hyn o bryd drwy gyfrwng y sector addysg bellach, a oedd yn rhwystro llawer o bobl rhag cymryd rhan. Roedd angen datblygu ymagweddau dyfeisgar tuag at ddarparu hyfforddiant yn y gweithle, a fyddai'n denu dysgwyr annhraddodiadol. Fodd bynnag, roedd angen cryn dipyn o waith paratoi i greu rhaglenni llwyddiannus, gan gynnwys amser i ystyried anghenion dysgu'r gweithlu. Roedd angen cyllid digonol er mwyn datblygu a chyflwyno'r rhaglenni hyn yn y gweithle.

18. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd rhywfaint o gefnogaeth o blaid adfer yr hen ddull o fwrw prentisiaethau gweithgynhyrchu, a'r farn oedd bod angen sicrhau y ceir yr un parch tuag at beirianwyr a phobl broffesiynol. Er bod gan batrwm yr Almaen lawer o fanteision, nodwyd hefyd bod ganddo anfanteision o ran bod ei system yn gymharol anhyblyg.
- Nodwyd fod busnesau yn yr Almaen yn talu cost prentisiaethau, fel mae'n digwydd. Eglurodd Carey Lewis nad oedd gan y rhan fwyaf y fusnesau bach y gallu ariannol i hyfforddi eu staff, a fyddai, yn ôl pob tebyg, yn cael eu 'dwyn' gan gyflogwyr mwy cyn gynted ag y byddent wedi cwblhau eu hyfforddiant. Dadleuodd o blaid cael un mecanwaith syml ar gyfer cyflwyno hyfforddiant yn seiliedig ar batrwm y FÁS yn Iwerddon.
- Roedd yr aelodau o'r farn fod angen sicrhau bod modd cyfeirio peth o'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol tuag at gynorthwyo cymunedau lleol, yn ogystal â darparu hyfforddiant yn y gweithle.
- Roedd angen sicrhau y byddai'r hyfforddiant yn darparu pobl â sgiliau generig penodol yn hytrach na'u galluogi i wneud un swydd benodol. Nid oedd yr ymagwedd olaf yn briodol bellach o ystyried cyflymder y newid yn y farchnad lafur.
- Roedd yr aelodau o'r farn fod problem wirioneddol o ran cymhelliant isel ymhlith pobl ifanc ddi-waith yn yr ardaloedd difreintiedig. Yn yr achosion hyn, roedd yn hollbwysig bod y darparwyr hyfforddiant yn ystyried yn ofalus y ffordd orau o fodloni eu hanghenion.
- Teimlwyd i'r Cynlluniau Mentrau Cymunedol a fu'n weithredol ar ddechrau'r 1980au fod yn llwyddiannus o ran annog pobl i weithio ar eu liwt eu hunain neu i sefydlu busnesau

bach. Awgrymwyd y gallai fod cyfle i ailgyflwyno cynlluniau tebyg.
- Roedd angen sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer sgiliau sylfaenol ar gael i bobl hunan-gyflogedig.

19. Diolchodd y Cadeirydd i Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a TUC Cymru am eu hadroddiadau ysgrifenedig a'u cyflwyniadau. Dywedodd fod y broblem o ddiffyg sgiliau sylfaenol yn wendid strategol yn yr economi leol, a oedd yn creu her i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gan fod Arian Strwythurol Ewropeaidd ar gael i helpu i fynd i'r afael â'r broblem dros y blynyddoedd nesaf, dylid anelu'n gyffredinol at sicrhau yr un llwyddiant ag a gafwyd yn Iwerddon.

**Sesiwn hawl i holi**

20. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd. Dywedodd y byddai'n trefnu i gael ateb ysgrifenedig i bob cwestiwn gan yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol, ac eithrio un achos penodol pan wnaed cais penodol am ymateb gan bob un o'r pleidiau gwleidyddol.

21. Cafwyd cais i sicrhau bod atebion yr Ysgrifennydd Cynulliad i aelodau'r cyhoedd ar gael i'r Pwyllgor.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

22. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Gorffennaf yn y Ganolfan Ddinesig ym Mhont-y-pl. Byddai'r agenda ar gyfer y cyfarfod yn cwmpasu strategaeth weithredu ar gyfer Cymoedd De Cymru a chyflwyniad gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru yngln â rhoi statws Amcan 2 i Ddwyrain Cymru. Awgrymwyd y dylid ystyried hefyd oblygiadau rhoi statws Amcan 3 i'r rhanbarth.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2000**